



Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

# CANLLAWIAU

## i Feirniaid Newydd



[www.steddfota.org](http://www.steddfota.org)

CYMRAG



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

*Fel mae pawb yn gwybod mae chwaeth beirniaid yn amrywio'n fawr, ac yn sicr nid yw ceisio gosod rheolau beirniadu fel y cyfryw yn addas. Ond mae nifer wedi awgrymu y byddai cael rhyw fath o awgrymiadau/canllawiau i feirniaid newydd, dibrofiad, yn help iddynt wynebu'r gorchwyl yn hyderus. Mae Cymdeithas Eisteddfodau Cymru felly wedi gofyn i nifer o feirniaid profiadol am eu hawgrymiadau – a dyma eu tynnu at ei gilydd mewn un llyfryn. Mae'r Gymdeithas yn hynod ddiolchgar i'r beirniaid hynny am eu haelioni wrth rannu eu profiad ac i Aled Lloyd Davies am arwain y gwaith hwn.*

## CYFFREDINOL

Mae pobl yn cystadlu am ddau reswm mae'n siŵr – maent yn hoffi perfformio ac yn awyddus i gael beirniadaeth. Nod pob perfformiwr, wrth gwrs, yw cyfathrebu/cyfleu neges. Pa mor llwyddiannus y mae hynny'n digwydd yw sail unrhyw feirniadaeth dda. Pwrpas beirniadaeth, wrth gwrs, yw bod yn adeiladol, i helpu cystadleuwyr i wella eu perfformiadau. Does dim 'cywir' nac 'anghywir' wrth feirniadu OND rhaid bod mor dryloyw ac agored a phosib. Mewn un modd mae perfformiad yn medru bod yn berffaith neu'n wallus (hynny yw o ran bod y nodau neu'r geiriau yn gywir, fel y'u hysgrifennwyd hwy ar y copi gan y cerddor neu'r llenor), ond bydd canran o'ch beirniadaeth yn mynegi eich chwaeth chi eich hun fel beirniaid. Nid du a gwyn mohoni!

## DARNAU GOSOD

Mewn cystadleuaeth lle mae darn gosod, dylai'r beirniad ymglyfarwyddo'i hun yn llwyr â chynnwys y darn, gan adael y dehongliad yn benagored. Yn aml iawn, mae beirniad yn cael ei synnu gan ddehongliad hollol ffres ac annisgwyl, felly mae glynu at eich dehongliad personol chi ymlaen llaw yn gwneud cam â'r perfformiwr. Lle bod darn gosod (yn enwedig, efallai, yn yr adran Gerdd Dant), mae'n syniad paratoi nifer o gopiâu er mwyn gallu nodi sylwadau ar y copi hwnnw pan fo'r cystadleuydd wrthi'n perfformio.

Gyda beirniadaeth ysgrifenedig lle mae yna ddarn gosod, mae yna gyfle i'r beirniad ddweud yn fyr yr hyn mae e neu hi yn chwilio amdano yn y dehongliad. Hwyrach mai'r un fydd y paragraff i bawb, ond mae'n rhoi cyd-destun i weddill y feirniadaeth.

## DEWIS DARNAU

Mewn cystadleuaeth lle mae rhwydd hynt i'r cystadleuwyr ddewis eu darnau dylid ystyried:

- a yw'r dewis yn addas o ran llais/gallu
- yn ormod o her/ddim digon o sialens
- yn rhy hir neu fyr
- yn addas o ran oed/personoliaeth/rhyw (os mai detholiad allan o gyfanwaith megis rhan o awdl, neu ddarn o nofel a gyflwynwyd)
- a yw'r dewis yn synhwyrol o ran penillion yn creu dilyniant derbyniol
- os oes gofyn perfformio mwy nag un darn a yw'r darnau yn ddigon cyferbyniol?

## A OES ANGEN BEIRNIADAETH YSGRIFENEDIG?

Mae angen beirniadaeth ysgrifenedig yn Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol, ac mae rhai Eisteddfodau lleol yn darparu papur ar gyfer beirniadaeth ysgrifenedig gan y beirniaid, ac yn disgwyl hynny. Weithiau mae nifer yn cystadlu ac mae'n afresymol disgwyl i feirniad roi beirniadaeth ysgrifenedig ar bob un. Beirniadaeth lafar gwyno o'r llwyfan yn unig ddylai fod ei hangen ond os ydych yn penderfynu peidio â chyflwyno beirniadaeth ysgrifenedig dylech gytuno ar hyn gyda'r ysgrifenyddion cyn diwrnod yr Eisteddfod – fel bod pawb yn hollol sicr o beth yw'r disgwyliadau.

Wrth draddodi ar lafar, mae'n werth nodi'r math o beth y mae'r beirniad yn ei ddisgwyl mewn cystadleuaeth benodol e.e. llefaru dan 8 neu 10 oed - bod y llefarydd yn mwynhau perfformio, yn cario brawddegau yn ystyrion, yn deall y gerdd neu'r gân dan sylw.

Os oes angen rhoi beirniadaeth ysgrifenedig ni ddylech gael eich temtio i roi'r union un feirniadaeth i sawl unigolyn. Cofiwch fod ambell hyfforddwr yn dysgu dwsin neu fwy o blant oddi fewn i'r un ystod oedran, ac mae gweld union yr un feirniadaeth i sawl cystadleuydd yn gwneud i'r beirniad ymddangos yn ddi-hid ac, yn waeth fyth, yn ddiog.

Gwnewch yn siŵr fod eich beirniadaeth yn ramadegol gywir, ac yn llifo. Mae urddas yn beth pwysig, a chywirdeb iaith yn ganolog i feirniadaeth ysgrifenedig.

O ran gwneud nodiadau bydd beirniaid hefyd yn gwahaniaethu, gyda rhai yn ysgrifennu nodiadau byr iawn yn ystod y perfformiad ac ar ddiwedd y gystadleuaeth yn ysgrifennu beirniadaeth fanylach i'w thraddodi. Mae rhoi sgôr i'r cystadleuwyr hefyd yn medru bod o help yn enwedig os oes nifer fawr yn yr un gystadleuaeth ac mae gwneud nodyn o wisg neu liw gwallt y plentyn hefyd yn gallu bod o fudd. Yn aml, mae hyn yn help i ddwyn wyneb/safiad unigolyn i gof, ac yn atgoffa rhywun o'r perfformiad unigol – yn enwedig ar ôl treulio 3 awr yn gwrando ar dros 40 o blant!

Rhaid i bob beirniadaeth anelu at esbonio pam fod un perfformiwr yn ennill y wobr gyntaf, y llall yn ail a'r llall yn drydydd, neu heb gyrraedd llwyfan. Mae rhoi marciau neu fod â system syml o allu dweud i'r perfformiad e.e. gynnig amrywiaeth, dehongliad clir, fod yn llawn naturioldeb, neu ddod a'r elfennau dramatig yn fyw, ennyn ymateb, hawlio sylw, fod yn llawn didwylledd a.y.b. yn bwysig iawn.

Yn sicr mae angen i feirniaid feddu ar stôr o ansoddeiriau e.e. datganiad swynol, deallus, soniarus, meddylgar, diymdrech, safonol, ystyrion, a.y.b. Efallai y byddai'n help i chi ystyried pa ran o'r perfformiad oedd fwyaf llwyddiannus, a pha ran oedd leiaf llwyddiannus. Da o beth, mae'n siŵr, yw brawddeg gloi sy'n grynodedb o'r feirniadaeth ond sydd hefyd yn rhoi hwb i'r cystadleuydd e.e. 'Datganiad a roddodd fwynhad mawr i mi, o safon uchel dros ben, ac a ddaeth yn agos iawn at y brig'.

## LLWYFANNU

Peidiwch â bod ofn torri ar draws cystadleuaeth os oes gormodedd o sŵn yn y rhagbrawf/neuadd. Mae pawb sy'n perfformio yn haeddu cael tawelwch a mymryn o barch gan gynulleidfa.

Beth bynnag yw'r gystadleuaeth – canu, llefaru, offerynnol ac yn y blaen mae medru sefyll o flaen cynulleidfa mewn ffordd hyderus ac addas, gan gysylltu â'r gynulleidfa mewn modd priodol yn bwysig.

## GWOBRWYO

Efallai bydd yna adegau lle hoffech rannu'r wobr. Trafodwch gyda'r ysgrifennydd o flaen llaw i sicrhau bod hyn yn dderbyniol.

## CERDD - CYFFREDINOL

Mae nifer o bethau y dylid eu hystyried:

### *Ansawdd a Chynhyrchiad Sain*

- Ydy'r sain yn gyfoethog ymhob cwmpawd?
- Oes yna gynhaliath anadl sy'n cyfoethogi ansawdd y sain a'r llais?
- A ydy'r defnydd o'r wyneb yn allblyg ac felly'n creu ansawdd sain gyfoethog?
- A amrywir lleoliad y llais gan greu amrywiaeth yn ansawdd a 'lliw' y sain?
- A oes yna amrywio yn siâp y llafariad er mwyn amrywio ansawdd a 'lliw' y sain?
- A gynhyrchir sain gyfoethog gyda llif naturiol?
- A ddefnyddir ymdrech briodol i gyfoethogi'r sain?

### *Traw a Rhythm*

- Ydy'r darlenniad yn gywir gyda phob nodyn yn ei le?
- Oes yna sicrwydd tonyddiaeth gyson ym mhob cymal ac yng nghwmpawd uwch ac is y llais?
- Ydy traw pob nodyn yn gyson gywir?
- Ydy'r ffigurau rhythmig yn gyson gywir?
- Ydy'r acennu'n slic a naturiol?
- Ydy'r curiad yn cael ei gynnal yn gyson?
- Ydy'r amseriad yn cael ei amrywio'n gerddorol yn unol â'r cyfarwyddiadau?

### *Dehongli*

- Ydy'r cymalau/brawddegau cerddorol yn cael eu siapio yn sgil amrywiaeth dynameg?
- Oes yna gynllun dynameg ddiddorol i'r datganiad?
- Ydy'r geirio'n effeithiol gyda'r cytseiniaid yn eglur a siâp y llafariad yn creu ansawdd a lliw sain briodol?
- Ydy'r llafariad yn cael eu hystyried i greu llyfnder (legato) effeithiol?
- A wneir defnydd cerddorol o rubato (cymryd a rhoi'r amseriad) i greu teimlad ac emosiwn?
- Oes yna liwio geiriau yn effeithiol drwy gynanu (articulation)/bwysleisio synhwyrol?
- Ydy'r mynegiant yn ystyrion, yn cyfathrebu'r ystyr a'r naws?
- A ddewiswyd amseriad addas i ymdopi â gofynion technegol y gwaith?
- A ydy'r rhediadau'n ystwyth ac eglur ac yn arddangos rheolaeth dechnegol?
- A yw'r datganiad yn dangos llwyr ymwybyddiaeth o arddull a dyfeisiadau cyfnod y gerddoriaeth?

## PARTIÖN/CORAU

Yn ychwanegol i'r uchod dylid ystyried:

- A oes asiad ymhob adran lleisiol/offerynnol a'r synau yn gytbwys ac unol?
- A geir cydbwysedd cyfartal ymhob adran lleisiol/offerynnol?
- A oes yna ymdriniaeth gyfartal o ddynmeg ac ynganiad (articulation) yn y gwahanol adrannau lleisiol/offerynnol?
- A oes gwahaniaethu celfydd rhwng y brawddegau alawol a'r llinellau cyfeilio?
- A geir cysondeb cynhyrchiad sain yn yr holl adrannau lleisiol/offerynnol?
- A oes yna gydsymud cyson?

## OFFERYNNOL

Yn ychwanegol i'r canllawiau yn yr adran gyffredinol uchod dylid ystyried:

- A oes yna reolaeth ar gyffyrddiad/gynhyrchiad y nodau?
- A oes yna reolaeth ar gynnal a siapio brawddegau cerddorol?
- A lwyddir i greu amrywiaeth dynmeg?
- A yw'r gwaith byseddu dan reolaeth?
- A geir amrywiaeth gynanu (articulation) yn ôl cyfarwyddiadau'r cyfansoddwr a/neu drwy ddychymyg y perfformiwr?
- A yw'r perfformiwr/wyr yn llwyddo i chwarae brawddegau llyfnion (legato) yn deimladwy ac yn llawn mynegiant?
- A arddangosir techneg aeddfed wrth berfformio'r rhediadau/adrannau prysur bravura cyflym yn eglur a than reolaeth?
- A ydy'r cordio yn feistrolgar ac yn rheoli'r sain?
- Ydy'r addurniadau'n eglur a naturiol?
- A geir defnydd meistrolgar o'r bwa/pedalau?
- A yw'r ddisgyblaeth dechnegol yn creu datganiad lliwgar a diddorol?

## CANU GWERIN

Mae nifer o'r canllawiau cyffredinol uchod wrth gwrs hefyd yn bwysig wrth dafoli canu gwerin. Ond hefyd dylid ystyried:

- A yw'r ymgeisydd yn meddu ar lais addas ar gyfer canu gwerin?
- A yw'r dewis o gân/ganeuon yn addas o ran llais, oed, personoliaeth y canwr?
- Os oes gofyn perfformio dwy gân werin a ydynt yn ddigon cyferbyniol?
- Lle perfformir dwy gân, oes un yn fwy effeithiol na'r llall?
- Ydy'r perfformiwr yn llwyddo mynd i ysbryd y caneuon a ddewiswyd?
- A yw'n cynnal y traw a'r donyddiaeth ar hyd y daith?
- A grëir naturioldeb y ffurf yma o ganu?
- Ydy'r dehongliad yn naturiol yn hytrach na chlasurol?

- Ydy'r geirio'r eglur a chroyw, a'r stori'n ddealladwy a chilir o'r dechrau i'r diwedd?
- Ydy'r ansoddeiriau yn cael eu hynganu'n naturiol neu a oes yna orliwio?
- Ydy'r llafariad yn cael eu hynganu fel mewn sgwrs naturiol - neu a oes yna or-ymestyn llafariad a hynny'n gwneud yr ynganu'n annaturiol?

## CERDD DANT

- Ydy'r geiriau a genir yn addas i oedran, llais a phrofiad y datgeinydd?
- Ydy'r gainc a ddewiswyd yn gydnaws â natur a chynnwys y geiriau?
- Ydy'r geiriau yn rhoi cyfle i'r sawl sydd wedi gosod ac i'r datgeinydd i fanteisio ar hynny?
- Ydy'r gosodwr wedi manteisio ar y cyfleoedd oedd yn y gerdd?
- Ydy'r darn a ddewiswyd yn gynganeddol, ac a lwyddodd y datgeinydd/gosodwr i osod y penillion yn gynganeddol gywir?
- Ydy'r lleisio yn dderbyniol o safbwynt traw, cynhyrchu a lliw?
- Ydy'r tempo a ddewiswyd yn addas?
- Ydy'r canwr yn lliwio'r datganiad heb ormod o ymdrech?
- Ydy'r stori'n llifo'n rhwydd a naturiol?
- Ydy'r geirio'n eglur?
- Ydy'r geiriau yn cael eu llefaru'n naturiol neu a yw'r llafariad yn cael eu hymestyn yn annaturiol?
- Ydy awyrgylch y cyflwyno yn gymorth i ddehongli'r gerdd?
- Os ydy'r gosodiad yn galw am ganu croesacen, a gafwyd croesacennu derbyniol?
- A roddwyd digon o sylw i'r groesacen?

## LLEFARU

- Ydy'r darn a ddewiswyd yn addas o ran gallu/oed/rhyw/tafodiaith/hyd/gofynion cymeriadu a.y.b?
- Ydy'r dehongliad yn un naturiol heb or-bwysleisio a gor-ystumio? Mae naturioldeb a chynildeb yn rhinweddau cyhyd nad yw'r llefarydd yn colli cyfle i ddiddanu (dal diddordeb) y gynulleidfa.
- Ydy'r pwyslais yn cael ei rhoi ar y geiriau cywir?
- Ydy'r cystadleuydd yn llwyddo i gyfleu'r stori fel bod y gynulleidfa yn deall popeth?
- Ydy'r perfformiad yn hoelio sylw'r gynulleidfa?
- Ydy'r llais yn un da?
- Ydy'r anadl o dan reolaeth?
- Oes digon o amrywiaeth o ran defnyddio'r llais yn ddistaw/uchel?
- Oes digon o amrywiaeth o ran tempo (rhaid darnau yn gynt na'r lleill)?
- Os oes cyfle i gymeriadu ydy'r cystadleuydd yn gwneud hynny'n llwyddiannus gan wahaniaethu rhwng y cymeriadau?
- Ydy'r cystadleuydd yn cyfleu'r naws bwrpasol?
- Ydy'r cystadleuydd yn defnyddio'r wyneb a'r corff yn effeithiol?
- Ydy'r dehongliad yn un difyr?
- Ydy'r llefarwr wedi ymdeimlo â mydr/rhythm naturiol yr iaith?

## CYD-LEFARU

Wrth lwyfannu grwp mae'n help o bryd i'w gilydd i rannu'r lleisiau a newid y patrwm gweledol ond ni ddylid ystyried hynny yn gwbl angenrheidiol bob tro. Gall fod yn ymyrraeth ar rediad y cyfanwaith. Yn yr un modd gyda gwisgoedd, cerddoriaeth ac ychwanegiadau eraill, os ydyn nhw yn gymorth i'r gwrandawyr i ddeall a gwerthfawrogi'r darn yna maent yn werth eu defnyddio. Weithiau, mae cyflwyniad moel yn fwy effeithiol. Dylid cadw mewn cof bob amser mai tasg y cyflwynydd/cyflwynwyr yw bod yn bont rhwng awdur y darn a'r gynulleidfa.

**Ond y cyngor pennaf oll yw mwynhewch y profiad!**



**Cymdeithas  
Eisteddfodau  
Cymru**



[www.steddfota.org](http://www.steddfota.org)